Mae'r nodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

## Ellen Glynne Homes

### Mantolen

31 Mawrth 2024

		Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd dynodedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	31.3.24 Cyfanswm £	31.3.23 Cyfanswm £
	Nodiadau					
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>						
Asedau hir dymor	5	<b>99,796</b>	-	<b>240,100</b>	<b>339,896</b>	340,670
<b>ASEDAU PRESENNOL</b>						
Dyledwyr	6	<b>2,711</b>	-	-	<b>2,711</b>	1,804
Arian parod yn y banc		<b>73,079</b>	<b>114,413</b>	-	<b>187,492</b>	<b>191,557</b>
		<b>75,790</b>	<b>114,413</b>	-	<b>190,203</b>	193,361
<b>CREAWDWYR</b>						
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	<b>(18,897)</b>	-	-	<b>(18,897)</b>	(10,394)
<b>ASEDAU PRESENNOL NET</b>		<b>56,893</b>	<b>114,413</b>	-	<b>171,306</b>	<b>182,967</b>
<b>CYFANSWM ASEDAU, LLAI RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL</b>		<b>156,689</b>	<b>114,413</b>	<b>240,100</b>	<b>511,202</b>	523,637
<b>DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU</b>	8	<b>(899)</b>	-	-	<b>(899)</b>	(1,608)
<b>ASEDAU NET</b>		<b>155,790</b>	<b>114,413</b>	<b>240,100</b>	<b>510,303</b>	<b>522,029</b>
<b>CRONFEYDD</b>	9					
Cronfeydd anghyfyngedig:						
Cronfa gyffredinol					<b>155,790</b>	167,516
Cronfa cynnal a chadw yn y dyfodol					<b>114,413</b>	<b>114,413</b>
Cronfeydd cyfyngedig:						
Cronfa grantiau cyfalaf					<b>240,100</b>	<b>240,100</b>
<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD</b>					<b>510,303</b>	<b>522,029</b>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar 18 Medi 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

 H. Jones

Aelod o'r Bwrdd a Ysgrifennydd Grŵp Cynefin

Mae'r nodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol**  
**am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024**

**1. POLISI'AU CYFRIFO**

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**

Mae datganiadau ariannol yr elusen, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi'u paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy sy'n berthnasol i elusennau. paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (mewn grym 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a'r Deddf Elusennau 2011. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

**Menter byw**

Ar hyn o bryd ystyrir nad oes unrhyw ansicrwydd materol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel Menter byw.

**Incwm**

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith y bydd gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

O ran y brif ffynhonnell incwm, yr incwm rhent derbyniadwy, mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail anfonebau a godwyd am y llety rhent a ddarparwyd ac o rentu'r tir amaethyddol. Mae hyn yn cynnwys y casgliad uniongyrchol ar gyfer y cyfraniadau tai lleol, gan gynnwys budd-dal tai, a gesglir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, ynghyd â chyfraniadau personol gan drigolion.

**Gwariant**

Caiff rhwymedigaethau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol sy'n ymrwmo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd fel setliad a gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Rhoddir cyfrif am wariant ar sail cronïadau ac mae wedi'i ddsbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

**Asedau sefydlog**

Cyfalafu a defnyddio asedau sefydlog

Eiddo Llety

Adolygir cost yr eiddo, a gwerth gweddilliol y tir, ar gyfer dibrisiant yn flynyddol. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw newid sylweddol yng ngwerth yr eiddo ac felly maent wedi penderfynu nad oes unrhyw swm dibrisiadwy i'w gofnodi. Mae'r eiddo, sy'n cynnwys tir amaethyddol ac eiddo'r llety, yn cael eu hadolygu am amhariad yn flynyddol ac eto, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried nad oes unrhyw amhariad ar hyn o bryd.

Lle caiff cydrannau o'r adeilad eu hamnewid, caiff y gost ei chyfalafu a'i dibrisio dros oes amcangyfrifedig y gydran honno. Os nad yw'n sylweddol, caiff cost wreiddiol y gydran ei dileu drwy'r datganiad o weithgarwch ariannol.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad  
am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

**1. POLISI'AU CYFRIFO - parhad**

**Asedau sefydlog**

Llety Cymdeithasol

Lle mae datblygiadau wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan y Grant Tai Cymdeithasol (GTC), cyfrifir am y grant a dderbynnir mewn cronfa gyfyngedig. Efallai y bydd GTC yn ad-daladwy os caiff eiddo ei werthu.

Darperir dibrisiant ar yr holl asedau diriaethol er mwyn dileu'r gost, llai'r gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol yr asedau dan sylw. Ystyrir bod y cyfraddau canlynol yn berthnasol ar hyn o bryd: Mae dodrefn a chyfarpar yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth o 10%.

**Trethiant**

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

**Cyfrifyddu cronfeydd**

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u clustnodi gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer prosiectau neu ymrwymadau arbennig yn y dyfodol.

Dim ond at ddibenion cyfyngedig arbennig o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Mae cyfyngiadau'n codi pan nodir hynny gan y rhoddwr neu pan godir arian at ddibenion cyfyngedig penodol.

Mae esboniad pellach o natur a diben pob cronfa wedi'i gynnwys yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Ymrwymadau hurbwrcas a phrydlesu**

Caiff rhenti a delir o dan brydlesi gweithredu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

**2. INCWM BUDDSODDI**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	<b>31.3.24</b> <b>Cyfanswm</b>	31.3.23 Cyfanswm
	£	£	£	£
Llog cyfrif cadw	<u>3,893</u>	<u>-</u>	<u>3,893</u>	<u>1,266</u>

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad  
am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

**3. TÂL A BUDDIANNAU YR YMDDIRIEDOLWYR**

Nid oedd unrhyw dâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr na buddion eraill ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 nac ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**Treuliau Ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd unrhyw dreuliau ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 nac ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**4. CYMHARADAU AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd dynodedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm £
<b>INCWM A GWADDOLION O Gweithgareddau elusennol</b>				
Gweithgareddau elusennol	45,500	-	-	45,500
Incwm buddsoddi	1,266	-	-	1,266
Incwm arall	<u>8</u>	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>8</u>
<b>Cyfanswm</b>	<u>46,774</u>	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>46,774</u>
<b>GWARIANT AR Gweithgareddau elusennol</b>				
Gweithgareddau elusennol	47,180	-	-	47,180
Arall	<u>3,885</u>	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>3,885</u>
<b>Cyfanswm</b>	<u>51,065</u>	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>51,065</u>
<b>INCWM / (GWARIANT) NET</b>	(4,291)	-	-	(4,291)
<b>CYSONI CRONFEYDD</b>				
Cyfanswm a ddygwyd ymlaen	171,807	114,413	240,100	526,320
	<u>          </u>	<u>          </u>	<u>          </u>	<u>          </u>
<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD I GARIO YMLAEN</b>	<u>167,516</u>	<u>114,413</u>	<u>240,100</u>	<u>522,029</u>

**Ellen Glynne Homes**

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad  
am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024**

**5. ASEDAU SEFYDLOG**

	Eiddo a tir Amaeth £	Peiriannau ac offer £	Gosodion a fitiadau £	Cyfanswm £
<b>COST</b>				
Ar 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	<u>335,454</u>	<u>4,179</u>	<u>17,297</u>	<u>356,930</u>
<b>DIBRISIAN</b>				
Ar 1 Ebrill 2023	-	4,179	12,081	16,260
Dibrisiant am y Flwyddyn	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>774</u>	<u>774</u>
Ar 31 Mawrth 2024	<u>-</u>	<u>4,179</u>	<u>12,855</u>	<u>17,034</u>
<b>GWERTH LLYFR NET</b>				
Ar 31 Mawrth 2024	<u>335,454</u>	<u>-</u>	<u>4,442</u>	<u>339,896</u>
Ar 31 Mawrth 2023	<u>335,454</u>	<u>-</u>	<u>5,216</u>	<u>340,670</u>

**6. DYLEDWYR: SYMIAU SY'N SYRTHIO O FEWN FLWYDDYN**

	31.3.24 £	31.3.23 £
Dyledwyr masnachol	1,799	1,039
Dyledwyr eraill – rhent tir	569	569
Rhagdaliadau	<u>343</u>	<u>196</u>
	<u>2,711</u>	<u>1,804</u>

**7. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N SYRTHIO O FEWN FLWYDDYN**

	31.3.24 £	31.3.23 £
Credydwyr masnachol	6,110	-
Credydwyr eraill	<u>12,787</u>	<u>10,394</u>
	<u>18,897</u>	<u>10,394</u>

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad  
am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

<b>8. DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU</b>		<b>31.3.24</b>	31.3.23
		£	£
Darpariaethau – Dyledwyr drwg ac ansicr		<u>899</u>	<u>1,608</u>
<b>9. SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD</b>			
		Symudiadau	Ar
	Ar 1.4.23	net yn y	31.3.24
	£	cronfeydd	£
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>		£	
Cronfa gyffredinol	<b>167,516</b>	<b>(11,726)</b>	<b>155,790</b>
Cronfa cynnal a chadw yn y dyfodol	<u><b>114,413</b></u>	<u>-</u>	<u><b>114,413</b></u>
	<b>281,929</b>	<b>(11,726)</b>	<b>270,203</b>
<b>Cronfeydd cyfyngedig</b>			
Cronfa grantiau cyfalaf	<b>240,100</b>	-	<b>240,100</b>
	<u>                    </u>	<u>                    </u>	<u>                    </u>
<b>CYFANSWM</b>	<u><b>522,029</b></u>	<u><b>(11,726)</b></u>	<u><b>510,303</b></u>

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel a ganlyn:

	Incwm ac	Costau	Symudiad
	adnoddau i	ac adnoddau	net yn y
	fewn	allan	cronfeydd
	£	£	£
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>			
Cronfa gyffredinol	<b>53,830</b>	<b>(65,556)</b>	<b>(11,726)</b>
	<u>                    </u>	<u>                    </u>	<u>                    </u>
<b>CYFANSWM</b>	<u><b>53,830</b></u>	<u><b>(65,556)</b></u>	<u><b>(11,726)</b></u>

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad  
am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

9. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD - parhad

Cymariaethau ar gyfer symudiadau yn y cronfeydd

	Ar 1.4.22 £	Symudiadau net yn y cronfeydd £	Ar 31.3.23 £
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>			
Cronfa gyffredinol	171,807	(4,291)	167,516
Cronfa cynnal a chadw yn y dyfodol	<u>114,413</u>	<u>-</u>	<u>114,413</u>
	286,220	(4,291)	281,929
<b>Cronfeydd cyfyngedig</b>			
Cronfa grantiau cyfalaf	240,100	-	240,100
	<u>526,320</u>	<u>(4,291)</u>	<u>522,029</u>

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel a ganlyn:

	Incwm ac adnoddau i fewn £	Costau ac adnoddau allan £	Symudiad net yn y cronfeydd £
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>			
Cronfa gyffredinol	46,774	(51,065)	(4,291)
	<u>46,774</u>	<u>(51,065)</u>	<u>(4,291)</u>

**Dibenion y cronfeydd**

Cronfeydd anghyfyngedig

Mae'r gronfa gyffredinol ar gael, yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr, i'w defnyddio i hyrwyddo amcanion yr elusen.

Mae'r ffigwr a ddangosir uchod yn cynnwys balans cronfa waddol hanesyddol o £121,670, a gyflwynwyd pan gymerwyd rheolaeth yr elusen drosodd o gan 'The Order of St John Trustee Company'. Credir bod hyn yn gynrychioled o ddal 1,394 o gyfranddaliadau cronni yn y 'National Association of Almshouses Common Investment Fund' a 2,111.93 o gyfranddaliadau cronni yn y 'Charinco Charities Narrower-range Common Investment Fund'. Credir i'r daliadau hyn gael eu gwaredu yn 2007, ac felly ni ellir briodoli y £121,670 yn uniongyrchol i unrhyw asedau elusennol, mae'r ffigwr hwn wedi'i eithrio wrth gyfrifo y gronfa wrth gefn rydd.

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad  
am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024**

**9. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD - parhad**

Cronfa cynnal a chadw yn y dyfodol

Nid yw'r Elusen yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwaith cylchol yn y dyfodol ond mae'n codi costau gwirioneddol a ysgwyddir i'r cyfrif incwm a gwariant. Fodd bynnag, mae'r Elusen yn dynodi rhan o'i chronfeydd wrth gefn ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol. Mae'r gronfa ddynodedig hon yn cynrychioli cronfeydd a neilltuwyd ar gyfer gwariant cynnal a chadw ac atgyweirio yn y dyfodol, ac ar y dechrau fe'i hariannwyd yn unol â'i dogfennau llywodraethu, gan 44 o gyfranddaliadau cronni yn y 'National Association of Almshouses Common Investment Fund'. Ond ers gwaredu'r rhain, penderfynir ar y swm a ddelir yn y gronfa drwy'r asesiadau a wnaed gan y bwrdd rheoli o'r symiau a amcangyfrifwyd i fod eu hangen.

Cronfa grantiau cyfalaf

Mae'r gronfa gyfyngedig hon, sy'n dod i gyfanswm o £240,100, yn cynrychioli Grant Tai Cymdeithasol a dderbyniwyd mewn perthynas â'r eiddo ased sefydlog.

Trosglwyddiadau

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024, nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng y cronfeydd (2023: Dim).

**10. DATGELU PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Ymddiriedolwr yr elusen yw Grŵp Cynefin (GC). Mae GC yn cyflawni holl swyddogaethau rheoli'r Elusen ac yn cael ffi rheoli am hyn. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o'r costau, sef £60,862 yn 2024, wedi'u talu i'r ymddiriedolwr. Y ffi reoli ar gyfer 2023/24 oedd £6,110 (2022/23: £6,444). Ni thalwyd unrhyw unigolion na chyrrff corfforaethol am eu gwasanaethau fel Aelodau Bwrdd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £13,065 (2023: £5,614) yn ddyledus i GC ar gyfer costau rheoli cronedig a chostau eraill ac ati.

**ELLEN GLYNNE HOMES**

England & Wales - Charity number 219790

---

# Accounts

---

**TAI ELLEN GLYNNE**

**DATGANIADAU ARIANNOL HEB ARCHWILIAD  
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2023  
(Elusen Gofrestredig Rhif 219790)**

**TAI ELLEN GLYNNE**

**DATGANIADAU ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2023**

**Tudalen**

- 1** Adroddiad yr Ymddiriedolwr
- 5** Adroddiad yr Arholwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwr
- 6** Datganiad Sefyllfa Ariannol
- 7** Datganiad o Symudiadau Ariannol (yn cynnwys incwm a gwariant)
- 8** Nodiadau i'r Cyfrifon

# TAI ELLEN GLYNNE

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2023

Cyflwynna'r Ymddiriedolwr yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiadau Ariannol heb eu harchwilio am y flwyddyn yn diweddu'r 31 Mawrth, 2023.

### Gwybodaeth Weinyddol

**Enw'r Elusen**

**Gofrestredig:** Ellen Glynne Homes

**Ymddiriedolwr:** Grŵp Cynefin

**Person Cyswilt a**

**chyfeiriad yr** Grŵp Cynefin  
**Ymddiriedolwr:** Tŷ Silyn  
Y Sgwâr  
PENYGROES  
Gwynedd

**Cyfreithwyr:** Pritchard Jones Lane  
37 Y Maes  
CAERNARFON  
Gwynedd

**Arholwr Annibynnol:** Emyr Mortimer Cyf  
32 Y Maes  
CAERNARFON  
Gwynedd

**Prif Swyddfa:** Tŷ Silyn  
Y Sgwâr  
PENYGROES  
Gwynedd

**Rhif yr Elusen:** 219790

## TAI ELLEN GLYNNE

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2023

#### Strwythur, Llywodraethau a Rheolaeth

Yr Ymddiriedolwr yw Grŵp Cynefin. (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Rhif L029). Dogfen lywodraethol yr elusen yw'r weithred ymddiriedolaeth. Aelodau presennol ac aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin yw:

#### Aelodau y Bwrdd

Carys Edwards (Cadeirydd)  
Ellen Llwyd Williams (Is-Gadeirydd)  
Mike Corfield  
Slôn Wyn Fôn  
Geraint George  
Julia Hughes (Ymddiswyddo Hydref 2022)  
Llinos Iorwerth  
Tony Jones  
Dafydd Lewis  
Jane Lewis  
Clifton Robinson (Ymddiswyddo Medi 2022)  
Lesley Singleton (Ymddiswyddo Mawrth 2023)  
David Lloyd  
Nigel Finney

#### Ysgrifennydd

Helen Jones, Ysgrifennydd

#### Trefniant

Yr Ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am faterion ariannol yr elusen. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwr yn cyfarfod ddwy waith y flwyddyn.

#### Pwerau Buddsoddi

Mae gan yr Ymddiriedolwr y pŵer i wneud buddsoddiadau fel y mynno.  
Mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol am adolygu'r buddsoddiadau yn rheolaidd.

#### Nôd a Gweithgareddau - Datganiad o Fudd Cyhoeddus

Mae nôd elusennol yr Elusen wedi ei nodi isod ac ystyrir eu bod er budd y cyhoedd fel a ganlyn:-

- Er mwyn darparu llety a chymorth er mwyn cartrefu pobl sydd yn hen neu yn anabl, ac er mwyn darparu cyfleusterau eraill i bobi debyg er budd yr henoed a'r anabl.
- I hyrwyddo nod elusennol cyffredinol yr elusen yn unol â phenderfyniad yr Ymddiriedolwr.

#### Gweithgareddau a Pherfformiad

Cyfanswm yr adnoddau ariannol a ddaeth i mewn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 oedd £45,846 (£44,277 am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022). Ar ôl costau, y diffyg am y flwyddyn oedd £4,291 (£10,551 diffyg am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth, 2022).

## TAI ELLEN GLYNNE

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2023

#### Adolygiad Ariannol

##### Polisi ar Gronfeydd a Rheolaeth Risg

Mae'r Ymddiriedolwr wedi ystyried yr angen am lefel o gronfeydd addas ar ôl ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

Wrth benderfynu ar y polisi ar gronfeydd, mae'r Ymddiriedolwr wedi adnabod nifer o amcanion craidd. Rhain yw:-

- Sefydlu cronfeydd rhydd digonol (heb gynnwys asedau sefydlog) er mwyn sicrhau bod gan yr Elusen digon o hylifedd er mwyn cwrdd â gofynion ariannol a gyfyd yn sgil newidiadau yn lefel deiliadaeth neu gostau anarferol y tu allan i sgôp y gyllideb, a
- Er mwyn datblygu Mantolen gref a llif arian positif er mwyn cyllido gwelliannau i'r eiddo presennol.

Mae lefel y cronfeydd angenrheidiol wedi ei benderfynu trwy ddefnyddio cyllidebau a llif arian manwl. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod llif arian yn ddigonol i gyfarfod â gofynion yr Elusen. Mae'r buddsoddiad yn yr eiddo yn cael ei benderfynu ar ôl ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r gofynion ariannol at y dyfodol agos.

Mae'r Ymddiriedolwr yn adnabod risgiau ar gyfer Grŵp Cynefin sy'n cynnwys risgiau'r Elusen lle fo'n berthnasol ac ar gyfer pob un o'r rhain mae asesiad wedi ei wneud o'r effaith bosib, ei ddifrifoldeb a'i debygolrwydd o ddigwydd. Mae'r rheoliadau mewnol ac allanol wedi eu hadolygu ar gyfer eu heffeithiolrwydd i leddfu'r risgiau.

Mae'r systemau a sefydlwyd er mwyn rheoli'r lefel o risg yn cynnwys y olynol:-

- Mewn cyfarfod yn flynyddol o'r Bwrdd Rheoli, fe adolygir rhestr o risg digwyddiadau difrifol (a'r camau a gymerir i gwrdd â'r rhain).

Mae rheolaeth risg yn broses parhaol yn yr elusen. Cyfrifoldeb y Bwrdd yw sicrhau bod strwythurau rheoli risg addas mewn lle.

##### Ffynonellau Ariannu a Gwariant

Prif ffynhonnell incwm yr Elusen yw'r rhent a godir ar gyfer yr eiddo anneddol. Mae'r gwariant yn berthnasol i'r eiddo yma.

##### Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Bydd yr Ymddiriedolwr yn ymgelsio cynhyrchu syrffed, ond ble wnaed colled yna bydd oherwydd buddsoddi yn eiddo'r Elusen.

## TAI ELLEN GLYNNE

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2023

#### Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr mewn Perthynas â'r Adroddiadau Ariannol

Mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Egwyddor Cyfrifeg Gyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

Mae'r gyfraith berthnasol ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr yn disgwyl i'r Ymddiriedolwr baratoi Adroddiadau Ariannol am bob blwyddyn sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Elusen ac o'r adnoddau ariannol i mewn ac allan am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny gofynnir i'r Ymddiriedolwr:-


- ddewis polisiau cyfrifo priodol a'u defnyddio mewn ffordd gyson;
- dilyn canllawiau ac egwyddorion y "Charities SORP";
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig perthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw oni bai ei bod yn amhriodol tybio bydd yr Elusen yn parhau mewn busnes.

Yr Ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sy'n datgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, gyflwr ariannol yr Elusen, ac sy'n ei galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio a Deddf Elusennau 2011 a'r Rheoliadau 2008 ar gyfer Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a gofynion y weithred ymddiriedolaeth. Mae hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr Elusen ac felly am gymeryd camau rhesymol er mwyn atal a chanfod twyll ac anghysonderau arall.

Cymeradwywyd adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwr ac arwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwr gan:







Dyddiad

Grŵp Cynefin  
Ymddiriedolwr

## **ADRODDIAD YR ARHOLWR ANNIBYNNOL**

### **I YMDDIRIEDOLWR TAI ELLEN GLYNNE**

Rwyf yn adrodd ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth, 2023 sy'n cynnwys y datganiad o sefyllfa ariannol, y datganiad o symudiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

#### **Cyfrifoldebau Priodol yr Arholwr a'r Ymddiriedolwr**

Mae Ymddiriedolwr yr Elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae Ymddiriedolwr yr Elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad am y flwyddyn o dan Adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau 2011 (Y Ddeddf 2011) a bod angen arholiad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:-

- arholi'r cyfrifon o dan Adran 145 o Ddeddf 2011;
- dilyn y canllawiau a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddir gan y Comisiynwyr Elusennau o dan Adran 145 (5)(b) o'r Ddeddf 2011; ac
- i ddatgan os oes unrhyw fater penodol wedi dod i fy sylw.

#### **Sail i Adroddiad yr Arholwr Annibynnol**

Cynhaliwyd fy arholiad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddir gan y Comisiynwyr Elusennau. Mae arholiad yn cynnwys adolygu'r cofnodion cyfrifo a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon gyda'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw eitemau anarferol neu ddatgeliadau yn y cyfrifon, a chwennych esboniadau gennych chwi fel Ymddiriedolwr ar y materion hynny. Nid yw'r gweithdrefnau a gynhaliwyd yn darparu'r dystiolaeth y byddai ei angen o dan archwiliad ac felly nid wyf yn datgan barn os yw'r cyfrifon yn rhoddi darlun "gwir a theg", ac mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodwyd yn y datganiad isod.

#### **Datganiad yr Arholwr Annibynnol**

Mewn cysylltiad â fy arholiad, nid oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw:-

- sydd yn rhoi unrhyw reswm rhesymol i mi gredu, yn faterol, fod gofynion:
  - a. i gadw cofnodion cyfrifo yn unol ag Adran 130 o Ddeddf 2011; ac
  - b. i baratoi cyfrifon sydd yn cyd-fynd a'r cofnodion cyfrifo ac sy'n cydymffurfio a gofynion cyfrifyddol Ddeddf 2011, heb eu cwrdd; neu
- bod unrhyw fater angen ei ddwyn i sylw er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn o'r cyfrifon.

**EMYR MORTIMER RICE-ROBERTS BA FCA  
EMYR MORTIMER CYF  
CYFRIFWYR SIARTREDIG  
32 Y MAES, CAERNARFON**

**Dyddiad:** .....

TAI ELLEN GLYNNE

DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

AR 31 MAWRTH 2023

	Nodiadau	2023 £	2022 £
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>			
Asedau Gweladwy	4	340,670	341,249
		-----	-----
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>			
Dyledwyr	5	196	182
Cyfrifon Cadw tymor byr		177,635	176,424
Arian yn y banc		13,922	46,524
		-----	-----
		191,753	223,130
<b>CREDYDWYR</b>			
Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn	6	(10,394)	(38,059)
		-----	-----
<b>ASEDAU CYFREDOL NET</b>		181,359	185,071
		-----	-----
<b>CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL</b>		522,029	526,320
		-----	-----
<b>ASEDAU NET</b>		522,029	526,320
		=====	=====
<b>CRONFEYDD YR ELUSEN</b>			
Cronfa Gwaddoliad	9	121,670	121,670
Cronfa Gyfyngedig	10	240,100	240,100
Cronfeydd Anghyfyngedig			
- Cyffredinol	7	45,846	50,137
- Penodol	8	114,413	114,413
		-----	-----
		522,029	526,320
		=====	=====

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y bwrdd, eu hawdurdodi i'w cyhoeddi, ac yn cael eu llofnodi ar ran y bwrdd gan:

.....*E. Edwards*.....

*H. Jones*

.....13/09/2023..... Dyddiad

TAI ELLEN GLYNNE

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (INCWM A GWARIANT)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH 2023

Nodiadau	Cyfanswm Cronfa Anghyfyngedig 2023 £	Cyfanswm Cronfa Anghyfyngedig 2022 £
<b>Adnoddau i Mewn</b>		
Incwm Buddsoddiadau		
- Llôg	1,266	30
Adnoddau i mewn o Weithgareddau Elusennol		
- Costau a dderbyniwyd	45,500	44,247
	-----	-----
<b>Cyfanswm adnoddau i mewn</b>	<b>46,766</b>	<b>44,277</b>
	-----	-----
<b>Adnoddau a Ddefnyddiwyd</b>		
Gweithgareddau Elusennol		
- Cost Rheoli	6,444	5,311
- Yswiriant	1,654	1,518
- Costau eraill	175	288
- Cynnal a chadw cyfredol	23,956	21,200
- Cynnal a chadw gwasanaethau	14,214	21,671
- Costau proffesiynol	2,393	3,807
- Dileu dyledion drwg	800	446
- Darpariaeth dyledion drwg	5	(816)
- Dibrisio	579	772
Costau llywodraethu		
- Ffioedd cyfrifo	12	840
	-----	-----
<b>Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd</b>	<b>51,057</b>	<b>54,828</b>
	-----	-----
<b>Symudiadau net yn y cronfeydd</b>	<b>(4,291)</b>	<b>(10,551)</b>
	-----	-----
<b>Cronfa Anghyfyngedig</b>		
Cyfanswm d/y	7	50,137
	-----	-----
<b>Cyfanswm c/y</b>	<b>7</b>	<b>50,137</b>
	=====	=====

Nid yw'r uchod yn cynnwys y gronfa benodol (nodyn 8), y gronfa gwaddoliad (nodyn 9) na'r gronfa gyfyngedig (nodyn 10) gan nad oedd unrhyw symudiad yn ystod y flwyddyn.

## TAI ELLEN GLYNNE

### NODIADAU I'R CYFRIFON

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH 2023

#### 1. Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r elusen yn gofrestredig yng Nghymru ac yn anghorfforedig. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Grŵp Cynefin, Ty Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, LL54 6LY.

#### 2. Datganiad Cydymffurfio

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol ag FRS 102, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon', y Datganiad o Arferion a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (SORP Elusennau (FRS 102)) a Deddf Elusennau 2011.

#### 3. Polisiâu Cyfrifo

##### Sail Cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi o dan y ddefod cost hanesyddol. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi mewn punnoedd Prydeinig, sef arian swyddogaethol y endid. Nodir isod y prif bolisiâu cyfrifo a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon.

##### Strwythur a Gweithgareddau

Cyfansoddiad yr Elusen, sydd wedi ei gofrestru gyda'r Comisiynwyr Elusennau yw'r datganiad o ymddiriedolaeth dyddiedig 2 Mawrth 1968 (wedi ei ddiwygio).

Yn ychwanegol, mae'r Ymddiriedolwr yn edrych ar ôl cyllid gyda golwg i ddatblygu'r nod elusennol ymhellach.

##### Hyfywedd yr Elusen i'r Dyfodol

Nid oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynglŷn â gallu'r elusen i barhau'n weithredol.

##### Cyfalafiad a defnydd o Asedau Sefydlog

##### Eiddo

Mae cost yr eiddo ar ôl grantiau cyfalaf a gwerth gweddilliol y tir yn cael ei adolygu yn flynyddol ar gyfer dibrisiad. Mae'r Ymddiriedolwr o'r farn nad oes swm i'w ddibrisio. Mae adolygiad hefyd yn cael ei wneud yn flynyddol ar gyfer amhariad ac mae'r Ymddiriedolwr o'r farn nad oes y fath amhariad.

Lle mae elfennau o'r adeilad yn cael eu hail osod, mae'r gost yn cael ei gyfalafu a'i ddibrisio dros fywyd economaidd yr elfen honno. Os nad yw'n faterol mae'r gost wreiddiol yn cael ei ysgrifennu i ffwrdd.

## TAI ELLEN GLYNNE

### NODIADAU I'R CYFRIFON - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH 2023

#### 3. Polisiâu Cyfrifo - parhad

##### Tai Cymdeithasol

Lle mae datblygiad wedi ei gyllido yn rhannol neu yn gyfan gwbl gan Grant Tai Cymdeithasol, mae'r grant a dderbyniwyd yn cael ei gyfrifo mewn cronfa gyfyngedig. Mae Grant Tai Cymdeithasol yn cael ei ad-dalu os yw'r eiddo yn cael ei werthu.

Mae dibrisio yn cael ei ddarparu ar yr Asedau Sefydlog i gyd er mwyn ysgrifennu i ffwrdd cost yr ased llai ei werth gweddilliol dros ei oes economaidd ar sail llinell syth. Mae'r canrannau canlynol yn berthnasol:-

Dodrefn ac offer 10%

##### Ffynonellau Incwm a Gwariant

Mae incwm yn cael ei gyfrif ar sail y rhent a godir yn unol â'r anfonebion, ynghyd â rhoddion ac incwm arall. Mae'n cynnwys taliadau uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer budd-dal tai ynghyd â chyfraniadau personol y tenantiaid.

Mae gwariant yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon yn unol â'r egwyddor croniadau lle mae oblygiad cyfreithiol ar yr elusen ar gyfer gwariant. Mae gwariant yn berthnasol i gostau darparu'r eiddo anneddol ar wahân i gostau rheoli'r Elusen yn unol â'r cyfansoddiad a'r gofynion cyfreithiol.

##### Cyfrifeg y Cronfeydd

Mae'r gronfa anghyfyngedig ar gael i'w ddefnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo unrhyw un o ddibenion yr elusen.

Mae'r gronfa benodol yn rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig a glustnodwyd gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect neu ymrwymiad penodol yn y dyfodol.

Mae'r gronfa benodedig yn amodol ar gyfyngiadau ar eu gwariant gan y rhoddwr neu drwy delerau'r apêl.

##### Cronfa Benodedig - Cynnal a Chadw at y Dyfodol

Nid yw'r Elusen yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwariant cylchol at y dyfodol ond yn hytrach mae'n cynnwys yn y cyfrifon y gwariant fel mae'n digwydd. Mae'r Elusen yn darparu ar gyfer cynnal a chadw at y dyfodol yn unol â'r canllawiau yn y ddogfen ymddiriedolaeth ar sail yr asesiad a wneir gan yr ymddiriedolwr o'r symiau sydd angen eu darparu.

##### TAW

Nid yw'r Elusen wedi ei gofrestru ar gyfer TAW.

TAI ELLEN GLYNNE

NODIADAU I'R CYFRIFON - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH 2023

4. Asedau Sefydlog Gweladwy

	Tir Fferm ac Eiddo Anneddol	Dodrefn ac Offer	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar 1 Ebrill, 2022	335,454	21,476	356,930
	-----	-----	-----
Ar 31 Mawrth, 2023	335,454	21,476	356,930
	=====	=====	=====
Dibrisio	Dibrisio	Dibrisio	Cyfanswm
	£	£	£
Ar 1 Ebrill, 2022	-	15,681	15,681
Am y flwyddyn	-	579	579
	-----	-----	-----
Ar 31 Mawrth, 2023	-	16,260	16,260
	=====	=====	=====
Gwerth yn y Llyfrau			
Ar 31 Mawrth, 2023	335,454	5,216	340,670
	=====	=====	=====
Ar 31 Mawrth, 2022	335,454	5,795	341,249
	=====	=====	=====

5. Dyledwyr: Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn

	2023 £	2022 £
Dyledwyr masnachol	1,039	619
Dyledwyr eraill	569	1,137
Darpariaeth drwg ddyledwyr	(1,608)	(1,756)
Blaendaliadau	196	182
	-----	-----
	<b>196</b>	<b>182</b>
	=====	=====

Mae'r ddarpariaeth drwg ddyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn yr un peth a'r llynedd. Mae'r Ymddiriedolwr yn fodlon bod y ddarpariaeth yn briodol ar ddiwedd y flwyddyn.

6. Credydwyr: Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn

	2023 £	2022 £
Credydwyr masnachol	8,706	37,033
Costau wedi cronni	1,688	1,026
	-----	-----
	<b>10,394</b>	<b>38,059</b>
	=====	=====

## TAI ELLEN GLYNNE

### NODIADAU I'R CYFRIFON - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH 2023

#### 7. Cronfeydd Cyffredinol

Mae'r cronfeydd yma yn cael eu defnyddio i gynnal amcanion yr Elusen.

	<b>2023</b> £	<b>2022</b> £
Cyfanswm d/y	50,137	60,688
Symudiadau Net yn y Cronfeydd	(4,291)	-----
Cyfanswm c/y	45,846 =====	50,137 =====

#### 8. Cronfa Benodol - Cynnal a Chadw i'r Dyfodol

Dynodir y gronfa hon gan yr Ymddiriedolwr i ddarparu ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol fel sy'n ofynnol gan y ddogfen Ymddiriedolaeth.

	<b>2023</b> £	<b>2022</b> £
Ar 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023	114,413 =====	114,413 =====

#### 9. Cronfa Gwaddoliad

	<b>2023</b> £	<b>2022</b> £
Ar 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023	121,670 =====	121,670 =====

#### 10. Cronfa Gyfyngedig

Mae'r gronfa hon yn cynnwys Grant Tai Cymdeithasol.

	<b>2023</b> £	<b>2022</b> £
Ar 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023	240,100 =====	240,100 =====

#### 11. Tal yr Ymddiriedolwyr

Gweler nodyn 13 am fanylion y ffi a dalwyd, ar hyd braich i'r Ymddiriedolwr.

**TAI ELLEN GLYNNE**

**NODIADAU I'R CYFRIFON - parhad**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH 2023**

**12. Ffioedd yr Arholwr Annibynnol**

	<b>2023</b>	<b>2022</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
Adroddiad yr Arholwr Annibynnol	840	800
Addasiad cronïadau y blynyddoedd blaenorol	-	(169)
	-----	-----
Cyfanswm	840	631
	=====	=====

**13. Trafodion gyda Phartïon Perthynol**

Ymddiriedolwr yr Elusen yw Grŵp Cynefin (GC). GC sy'n darparu'r cyfan o weinyddiad a rheolaeth yr Elusen, ac maent yn cael eu talu ffi gweinyddu. Y ffi gweinyddu ar gyfer 2022/23 oedd £6,444 (2021/22: £5,311). Ni chafodd unrhyw unigolion na chorfforaethau eu talu am eu gwasanaeth fel Aelodau'r Bwrdd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd £5,614 (2022: £17,781) yn ddyledus i GC am gostau rheoli.

Yn ystod y flwyddyn digwyddodd y trafodion canlynol rhwng GC a'r Elusen.

	<b>2023</b>	<b>2022</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
Costau cefnogaeth	3,305	2,644
	-----	-----
	3,305	2,644
	=====	=====

**ELLEN GLYNNE HOMES**

England & Wales - Charity number 219790

---

# Accounts

---

**TAI ELLEN GLYNNE**

**DATGANIADAU ARIANNOL HEB ARCHWILIAD**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2022**

**(Elusen Gofrestredig Rhif 219790)**

**TAI ELLEN GLYNNE**

**DATGANIADAU ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2022**

**Tudalen**

- 1** Adroddiad yr Ymddiriedolwr
- 5** Adroddiad yr Arholwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwr
- 6** Datganiad Sefyllfa Ariannol
- 7** Datganiad o Symudiadau Ariannol (yn cynnwys incwm a gwariant)
- 8** Nodiadau i'r Cyfrifon

## TAI ELLEN GLYNNE

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2022

Cyflwynna'r Ymddiriedolwr yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiadau Ariannol heb eu harchwilio am y flwyddyn yn diweddau'r 31 Mawrth, 2022.

#### Gwybodaeth Weinyddol

**Enw'r Elusen**

**Gofrestredig:** Ellen Glynne Homes

**Ymddiriedolwr:** Grŵp Cynefin

**Person Cyswllt a chyfeiriad yr Ymddiriedolwr:** Shan Lloyd Williams  
Grŵp Cynefin  
Tŷ Silyn  
Y Sgwâr  
PENYGROES  
Gwynedd

**Cyfreithwyr:** Pritchard Jones Lane  
37 Y Maes  
CAERNARFON  
Gwynedd

**Arholwr Annibynnol:** Emyr Mortimer Cyf  
32 Y Maes  
CAERNARFON  
Gwynedd

**Prif Swyddfa:** Tŷ Silyn  
Y Sgwâr  
PENYGROES  
Gwynedd

**Rhif yr Elusen:** 219790

## TAI ELLEN GLYNNE

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2022

#### Strwythur, Llywodraethau a Rheolaeth

Yr Ymddiriedolwr yw Grŵp Cynefin. (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Rhif L029). Dogfen lywodraethol yr elusen yw'r weithred ymddiriedolaeth. Aelodau presennol ac aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin yw:

#### Aelodau y Bwrdd

Carys Edwards (Cadeirydd)  
Ellen Llwyd Williams (Is-Gadeirydd)  
Mike Corfield  
Siôn Wyn Fôn (Penodwyd Chwefror 2022)  
Geraint George  
Julia Hughes  
Llinos Iorwerth  
John Arthur Jones (Ymddiswyddo Medi 2021)  
Tony Jones  
Dafydd Lewis  
Jane Lewis  
Clifton Robinson  
Chris Schoen (Ymddiswyddo Medi 2021)  
Lesley Singleton (Penodwyd Chwefror 2022)

#### Ysgrifennydd

Bryn Ellis, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Grŵp (Ysgrifennydd)

#### Trefniant

Yr Ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am faterion ariannol yr elusen. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwr yn cyfarfod ddwy waith y flwyddyn.

#### Pwerau Buddsoddi

Mae gan yr Ymddiriedolwr y pŵer i wneud buddsoddiadau fel y mynno.  
Mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol am adolygu'r buddsoddiadau yn rheolaidd.

#### Nôd a Gweithgareddau - Datganiad o Fudd Cyhoeddus

Mae nôd elusennol yr Elusen wedi ei nodi isod ac ystyrir eu bod er budd y cyhoedd fel a ganlyn:-

- Er mwyn darparu llety a chymorth er mwyn cartrefu pobl sydd yn hen neu yn anabl, ac er mwyn darparu cyfleusterau eraill i bobl debyg er budd yr henoed a'r anabl.
- I hyrwyddo nod elusennol cyffredinol yr elusen yn unol â phenderfyniad yr Ymddiriedolwr.

#### Gweithgareddau a Pherfformiad

Cyfanswm yr adnoddau ariannol a ddaeth i mewn am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022 oedd £44,277 (£43,057 am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021). Ar ôl costau, y diffyg am y flwyddyn oedd £10,551 (£2,821 gwarged am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth, 2021).

## TAI ELLEN GLYNNE

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR - parhad

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2022

#### Adolygiad Ariannol

##### Polisi ar Gronfeydd a Rheolaeth Risg

Mae'r Ymddiriedolwr wedi ystyried yr angen am lefel o gronfeydd addas ar ôl ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

Wrth benderfynu ar y polisi ar gronfeydd, mae'r Ymddiriedolwr wedi adnabod nifer o amcanion craidd. Rhain yw:-

- Sefydlu cronfeydd rhydd digonol (heb gynnwys asedau sefydlog) er mwyn sicrhau bod gan yr Elusen digon o hylifedd er mwyn cwrdd â gofynion ariannol a gyfyd yn sgil newidiadau yn lefel deiliadaeth neu gostau anarferol y tu allan i sgôp y gyllideb, a
- Er mwyn datblygu Mantolen gref a llif arian positif er mwyn cyllido gwelliannau i'r eiddo presennol.

Mae lefel y cronfeydd angenrheidiol wedi ei benderfynu trwy ddefnyddio cyllidebau a llif arian manwl. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod llif arian yn ddigonol i gyfarfod â gofynion yr Elusen. Mae'r buddsoddiad yn yr eiddo yn cael ei benderfynu ar ôl ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r gofynion ariannol at y dyfodol agos.

Mae'r Ymddiriedolwr yn adnabod risgiau ar gyfer Grŵp Cynefin sy'n cynnwys risgiau'r Elusen lle fo'n berthnasol ac ar gyfer pob un o'r rhain mae asesiad wedi ei wneud o'r effaith bosib, ei ddifrifoldeb a'i debygolrwydd o ddigwydd. Mae'r rheoliadau mewnol ac allanol wedi eu hadolygu ar gyfer eu heffeithiolrwydd i leddfu'r risgiau.

Mae'r systemau a sefydlwyd er mwyn rheoli'r lefel o risg yn cynnwys y canlynol:-

